

## CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG

DYDD GWENER, 22 IONAWR 2021

Yn  
bressenol: Cynghorydd John(Cadeirydd)

Cynghorwyr Cowan, Cunnah, George, Henshaw, Jarvie,  
K Jones, R Lewis, Y Cynghorydd Wendy Lewis a/ac Robson

### 51 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Burnett a Colbran.

Esboniodd y Cadeirydd fod angen iddo adael y cyfarfod am 2.25pm ac y byddai'r Cynghorydd Jarvie yn dod i'r Gadair yn ei le.

### 52 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

### 53 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2020 yn gofnod cywir.

### 54 : ADRODDIAD MONITRO MIS 9 AR GYFER 2020/21 AC ADRODDIAD Y GYLLIDEB 2021/22

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr adroddiad yn rhoi manylion gwariant ac incwm gwirioneddol i Gyd-bwyllgor Archifau Morgannwg ar 31<sup>ain</sup> Rhagfyr 2020 (Mis 9), yn erbyn Cyllideb gymeradwy 2020/21 ac amcanestyniadau ar gyfer sefyllfa alldro'r flwyddyn lawn. Hefyd i ddarparu manylion y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2021/22.

Cymeradwyodd yr Aelodau gyllideb 2020/21 ym mis Rhagfyr 2019. Ariennir y gyllideb o gyfraniadau refeniw awdurdodau lleol, wedi'i dosrannu ar y poblogaethau cymharol. Balans presennol y Gronfa Gyffredinol yw £174,385.

#### Monitro Mis 9

Amlinellodd swyddogion yr adran hon o'r adroddiad yn fanwl ac ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan yr Aelodau.

#### Cyllideb 2021/22

Amlinellodd swyddogion yr adran hon o'r adroddiad yn fanwl a gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan aelodau;

Mynegodd yr Aelodau bryder bod y gyllideb adeiladau'n cynyddu; Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai'n dda ystyried costau contractwyr. Esboniodd swyddogion fod y gyllideb atgyweirio wedi'i chadw ar £20 mil, yr elfen trethi annomestig cenedlaethol oedd y gost enfawr ar draean o'r gyllideb. Roedd swyddogion wedi cynnwys cynnydd o 2% ar gyfer costau contractwyr a bydd y rhain yn cael eu monitro.

Eglurodd swyddogion hefyd y gwariant untro o £26 mil ar gyfer ail-gyflenwi'r silindrau tân, a bod hwn yn wariant unwaith mewn deng mlynedd.

Ychwanegodd swyddogion ymhellach y byddai'r holl gostau dadleuol yn cael eu monitro a'u cadw mor isel â phosibl, ond roedd costau fel costau cyfleustodau a threthi annomestig cenedlaethol yn rhai na ellir eu rheoli.

Awgrymodd yr Aelodau y gellid rhentu unrhyw le sbâr yn yr Archifau i sefydliadau sydd am gael gofod storio dros dro oherwydd y lleihau.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar Argymhelliad 3 gan eu bod o'r farn ei fod yn benagored. Esboniodd swyddogion y byddai unrhyw wariant pellach ym flwyddyn untro yn dod yn ôl i'r Cydbwyllgor.

#### PENDERFYNWYD:

- a) I nodi'r sefyllfa alldro blwyddyn lawn a ragwelir ar gyfer 2020/21 fel y'i cyflwynir ym mharagraffau 5 i 28 yr adroddiad hwn.
- b) Argymell y dylid cytuno ar y cynigion cyllideb drafft ar gyfer 2021/22, fel y'u cyflwynir ym mharagraffau 29 i 53 o'r adroddiad hwn.

I nodi y gall fod angen cyfraniadau pellach yn ystod y flwyddyn ar gyfer eitemau mwy o wariant nad ydynt wedi'u cyllidebu ar eu gyfer er mwyn cynnal cyllideb gytbwys a chadw'r cydbwysedd yn y Gronfa Gyffredinol.

#### 55 : ADRODDIAD Y CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr adroddiad yn rhoi Cynllun Ariannol Tymor Canolig drafft i Gyd-bwyllgor Archifau Morgannwg am y 4 blynedd nesaf, gan ddarparu cynnig cyllideb diwygiedig mewn cyfnod o gyfyngiadau cyllidebol cynyddol.

Amlinellodd swyddogion yr adroddiad yn fanwl a gwahoddod y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau.

Gofynnodd yr Aelodau i'r Swyddogion beth yr ystyriwyd yn lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn. Esboniodd swyddogion nad oedd ffigur penodol, ei fod yn amodol ar gyfrannu cytundeb awdurdod lleol; ar hyn o bryd roedd y gronfa wrth gefn yn mynd i £33 mil ac ni fyddai swyddogion am ei gweld yn mynd yn llawer is na'r hyn sy'n symud ymlaen.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar gynnydd ar unwaith ar gyfer y flwyddyn nesaf ond heb gytuno ar gyfer unrhyw gynnydd pellach. Dywedodd swyddogion fod hynny'n gywir, a'r argymhelliad yw ond nodi'r sefyllfa, nid cymeradwyo unrhyw gynnydd ar ôl y flwyddyn nesaf.

Croesawodd yr Aelodau gyflwyno'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, gan ystyried ei bod yn dda cael cyfarwyddyd i fynd iddo ac y gall y Pwyllgor barhau i adolygu a chanolbwyntio ar unrhyw faterion a nodwyd. Roedd yr Aelodau'n teimlo'n sicr oherwydd yr e-bost gan Swyddog Adran 151 a ddywedodd ei fod hefyd yn fodlon â'r trefniadau.

PENDERFYNWYD:

- a) I nodi sefyllfa bresennol cydbwysedd y Gronfa Gyffredinol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig arfaethedig.

I nodi y gallai fod angen cynnydd blynyddol posibl neu gynnydd yn ystod y flwyddyn i gyfraniadau Awdurdodau Lleol wrth symud ymlaen ar ôl cael cymeradwyaeth gan Swyddogion S151.

56 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - I'W DRAFOD.

Mae cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor wedi'i drefnu ar gyfer 26 Mawrth 2021.

Trafododd yr Aelodau y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cyfrifon drafft erbyn 31 Mai 2021. Gofynnodd swyddogion a ellid dod â chyfarfod y Cydbwyllgor ym mis Mehefin ymlaen i ddydd Gwener 21 Mai 2021 i sicrhau y gellid bodloni'r dyddiad cau hwn.

PENDERFYNWYD: y bydd cyfarfod y Cydbwyllgor a drefnwyd ar gyfer mis Mehefin yn cael ei symud i ddydd Gwener 21 Mai 2021 am 2pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.10 pm